


Llwybr Datblygu'r Gymraeg

2020-21



Tiwtor :

Bethan Griffiths

bethan.griffiths@pcydd.ac.uk

Darlith 5
Dydd Mawrth 3^{ydd} o Dachwedd
2020



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



Rhagoriaith
CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG

Nod y sesiwn:

- Adborth tasg Wordwall a chasglu syniadau'r dosbarth sut i gyflwyno rhagenwau.

Dod yn ymwybodol o'r gwallau cyffredin sy'n codi wrth ddefnyddio'r arddodiaid:

- Arddodiaid Cyffredin (a'r treigladd meddal)
- Arddodiaid Cyfansawdd
- Camleoli'r arddodiaid
- Rhedeg yr arddodiaid

Atebion Ymarfer Wordwall



Wordwall

<https://wordwall.net/play/3372/369/258>

Rhagenwau

Name: _____

1. Mae'r ffeil yn gyflawn a'i drefn yn glir.
A ☐ Cywir B ☐ Anghywir
2. Mae'r Llywodraeth yn amrywio ei pholisiau.
A ☐ Cywir B ☐ Anghywir
3. Anghofiodd y merched ei cit pêl-droed.
A ☐ Cywir B ☐ Anghywir
4. Gweithiodd Aled yn arbennig wrth baratoi ei gyflwyniad.
A ☐ Cywir B ☐ Anghywir
5. Roedd Elen ac Eleri yn anhapus gyda'u marciau yn y prawf.
A ☐ Cywir B ☐ Anghywir
6. Mae'r daig yn hollbwsig a'i phwrpas yn glir.
A ☐ Cywir B ☐ Anghywir
7. Roedd yr adroddiad yn gynhwysfawr yn ei chyfanrwydd.
A ☐ Cywir B ☐ Anghywir
8. Penderfynodd yr athrawon beidio â gosod gwaith cartref i'w ddosbarth.
A ☐ Cywir B ☐ Anghywir
9. Roedd y wers yn rhy arwynebol a'i chynnwys yn rhy syml.
A ☐ Cywir B ☐ Anghywir
10. Mae'r gllniaduron yn y cwpwrdd a'u ceblau yn y boc.
A ☐ Cywir B ☐ Anghywir
11. Rhedodd Siân yn gyflym rhag iddi golli ei thren i Gaerdydd.
A ☐ Cywir B ☐ Anghywir
12. Roedd y gwasanaeth yn wych a'i chynnwys yn berthnasol.
A ☐ Cywir B ☐ Anghywir
13. Roedd Elen ac Eleri yn anhapus gyda'u marciau yn y prawf.
A ☐ Cywir B ☐ Anghywir
14. Penderfynodd Helen brynu anrheg Nadolig i'w gefnder.
A ☐ Cywir B ☐ Anghywir



Cywir
neu
Anghywir



Ymarfer – ATEBION ANGHYWIR



- Roedd Elen ac Eleri yn anhapus gyda'i marciau yn y prawf.
- Penderfynodd Helen brynu anrheg Nadolig i'w gefnder.
- Penderfynodd yr athrawon beidio â gosod gwaith cartref i'w ddosbarth.
- Roedd yr adroddiad yn gynhwysfawr yn ei chyfanrwydd.
- Anghofiodd y merched ei cit pêl-droed.
- Mae'r ffeil yn gyflawn a'i drefn yn glir.
- Roedd y gwasanaeth yn wych a'i chynnwys yn berthnasol.

Ymarfer – ATEBION CYWIR



- ✓ Rhedodd Siân yn gyflym rhag iddi golli ei thrên i Gaerdydd.
- ✓ Roedd Elen ac Eleri yn anhapus gyda'u marciau yn y prawf.
- ✓ Gweithiodd Aled yn arbennig wrth baratoi ei gyflwyniad.
- ✓ Roedd y wers yn rhy arwynebol a'i chynnwys yn rhy syml.
- ✓ Mae'r Llywodraeth yn amrywio ei pholisïau.
- ✓ Mae'r dasg yn hollbwysig a'i phwrrpas yn glir.
- ✓ Mae'r gliniaduron yn y cwpwrdd a'u ceblau yn y bocs.

Tasg :
Rhannu syniadau posib sut i
gyflwyno rhagenwau yn y
dosbarth.



Ewch i 'Files' BA3 Bethan > Cyflwyniad PPT > Sleid i bob grŵp

The background is white with several colorful geometric shapes. In the top left, there is a large teal circle with a white center, a smaller solid teal circle, and a dashed teal circle. In the top right, there is a large lime green circle, a smaller solid lime green circle, and a dashed lime green circle. In the bottom left, there is a large green circle with a white center, a smaller solid green circle, and a dashed green circle. In the bottom right, there is a large yellow circle with a white center, a smaller solid yellow circle, and a dashed yellow circle. A dashed grey line curves around the central text box. The text "Yr Arddodiaid" is written in a bold, black, sans-serif font inside a light blue rounded rectangle with a dark blue border.

Yr Arddodiaid

Beth yw pwrpas arddodiad?

Pwrpas arddodiad yw:

Dangos y berthynas rhwng gair ac enw /rhagenw.

Yn aml, mae'n cyfeirio at leoliad rhywbeth.



1. Yr Arddodiaid Cyffredin



Ydych chi'n gallu rhestru'r
arddodiaid cyffredin?



Yr Arddodiaid Cyffredin

am

ar

at

gan

dros

drwy

wrth

dan

heb

i

o

hyd

Pa reol iaith sydd angen cofio?

Mae'r arddodiaid cyffredin (12 i gyd) yn achosi'r
TREIGLAD MEDDAL

Hynny yw, rhaid newid llythyren gyntaf y geiriau sy'n
dechrau gyda
P T C B D G L I M Rh
ar ôl yr arddodiaid cyffredin.

	Treigladau Meddal
p	b
t	d
c	g
b	f
d	dd
g	/
ll	l
m	f
rh	r



<https://www.youtube.com/watch?v=8fjUdJqa5Hg>

Ymarfer

**Cywirwch y brawddegau canlynol.
Mae un gwall ym mhob brawddeg.**

1. Aeth Sian i chwilio am cacen

2. Es i dros pont gul

3. Paid â mynd heb gorffen y gwaith

4. Aeth ar bws coch

5. Mae'n dod o Caerfyrddin

6. Wyt ti'n mynd i Llundain?

7. Mae'n dechrau am tri o'r gloch



Ymarfer: Atebion



ANGHYWIR	CYWIR
1. Aeth Sian i chwilio am cacen	Aeth Sian i chwilio am gacen.
2. Es i dros pont gul	Es i dros bont gul.
3. Paid â mynd heb gorffen y gwaith	Paid â mynd heb orffen y gwaith.
4. Aeth ar bws coch	Aeth ar fws coch.
5. Mae'n dod o Caerfyrddin	Mae'n dod o Gaerfyrddin.
6. Wyt ti'n mynd i Llundain?	Wyt ti'n mynd i Lundain?
7. Mae'n dechrau am tri o'r gloch.	Mae'n dechrau am dri o'r gloch.

2. Arddodiaid cyfansawdd

**Mae arddodiaid cyfansawdd yn cynnwys
mwy nag un elfen**

**Gall y rhain weithiau gael eu hysgrifennu
ar ffurf un gair**

er mwyn

ar ôl

ar gyfer

am ben

oherwydd

ynghylch

uwchben

Arddodiaid cyfansawdd Personol

Fformiwla = gair 1 + rhagenw + gair 2

Ar ôl cytsain

● Mae angen defnyddio'r rhagenwau blaen:

fy, dy, ei, ein, eich, eu

ar ôl

ar **fy** ôl i
ar **dy** ôl di
ar **ei** hôl hi
ar **ei** ôl ef

er mwyn

er **ein** mwyn ni
er **eich** mwyn chi
er **eu** mwyn nhw

Arddodiaid cyfansawdd personol

Fformiwla = gair 1 + **rhagenw** + gair 2

Ar gyfer = ar + cyfer

fy + treigladd trwynol



ar fy **ng^hhyfer** i

dy + treigladd meddal



ar dy **gyfer** di

ei (g) + treigladd meddal



ar ei **gyfer** ef

ei (b) + treigladd llaes



ar ei **ch^yfer** hi

ein + dim treigladd



ar ein **cyfer** ni

eich + dim treigladd



ar eich **cyfer** chi

eu + dim treigladd



ar eu **cyfer** nhw

Cofiwch am y rheolau treiglo!

3. Camleoli'r arddodiaid

Ni ddylid gorffen brawddeg gydag arddodiad.
Serch hynny, gellir gorffen brawddeg gydag arddodiad os yw wedi cael ei redeg.

e.e. Ble rwyd ti'n dod o?



O ble rwyd ti'n dod?



Cofiwch :

Rydym hefyd yn defnyddio arddodiaid wrth ofyn cwestiwn. Er enghraifft...



I bwy...

At bwy...

Am faint...

Gan bwy...

O ble ...

Am beth...

I beth..

Ymarfer

Cywirwch y brawddegau canlynol.

1. Ble ti'n mynd i?

2. Pwy ti'n ysgrifennu at?

3. Pwy ti wedi cael fe gan?

4. Beth ti'n siarad am?

5. Ble mae fe yn?



Ymarfer: Atebion



ANGHYWIR	CYWIR
Ble ti'n mynd i?	I ble'r wyt ti'n mynd?
Pwy ti'n ysgrifennu at?	At bwy wyt ti'n ysgrifennu?
Pwy ti wedi cael fe gan?	Gan bwy wyt ti wedi ei gael?
Beth ti'n siarad am?	Am beth wyt ti'n siarad?
Ble mae fe yn?	Ym mhle mae e?

4. Rhedeg arddodiaid

Mae'r arddodiad cyffredin yn ogystal â'r arddodiaid **rhwng**, **rhag** ac **yn** yn cael eu rhedeg o flaen rhagenw.

Os yw'r arddodiaid yn rhedadwy, gallant roi gwybodaeth i ni am y person/peth y maent yn cyfeirio atynt.

e.e

am + fi = amdanaf i

gan + fi = gennyf fi

*Mae'r geiriau mewn cromfachau yn dynodi ffurf ffurfiol yr arddodiad.

am

UNIGOL	LLUOSOG
amdanaf i	amdanon ni (amdanom)
amdanat ti	amdanoch chi
amdano fe / amdani hi	amdany'n nhw (amdanynt)

ar

UNIGOL	LLUOSOG
arnaf fi	arnon ni (arnom)
arnat ti	arnoch chi
arno fe / arni hi	arnon nhw (arnynt)

at

UNIGOL	LLUOSOG
ataf i	aton ni (atom)
atat ti	atoch chi
ato fe / ati hi	aton nhw (atynt)

gan

UNIGOL	LLUOSOG
gen i (gennyf)	gennym ni
gen ti (gennyt)	gennych chi
ganddo fe / ganddi hi	ganddyn nhw (ganddynt)

dros (tros)

UNIGOL	LLUOSOG
drosto i (dros of)	droson ni (drosom)
drosot ti	drosoch chi
drosto fe / drosti hi	drostyn nhw (drostynt)

drwy (trwy)

UNIGOL	LLUOSOG
drwyddo i (drwof)	drwyddon ni (drwom)
drwyddot ti (trwot)	drwyddoch chi (drwoch)
drwyddo fe / hi	drwyddyn nhw (drwyddynt)

wrth

UNIGOL	LLUOSOG
wrtho i (wyrthyf)	wrthon ni (wrthym)
wrthot ti (wrthyf)	wrthoch chi (wrthyf)
wrtho fe / wrthi hi	wrthyn nhw (wrthynt)

dan (tan)

UNIGOL	LLUOSOG
danaf i	danon ni (danom)
danat ti	danoch chi
dano fe / dani hi	danynt nhw (danynt)

heb	
UNIGOL	LLUOSOG
hebddo i	hebddon ni
hebddot ti	hebddoch chi
hebddo fe/ hebddi hi	hebddyn nhw (hebddynt)

i	
UNIGOL	LLUOSOG
i fi (i mi)	i ni
i ti	i chi
iddo fe / iddi hi	iddyn nhw (iddynt)


o	
UNIGOL	LLUOSOG
ohonof i	ohonon ni
ohonot ti	ohonoch chi
ohono fe / ohoni hi	ohonyn nhw (ohonynt)

yn	
UNIGOL	LLUOSOG
ynof i	ynon ni (Ynom)
ynot ti	ynoch chi
ynddo fe / Ynddi hi	ynddyn nhw (ynddynt)

rhag	
UNIGOL	LLUOSOG
rhagof i	rhagon ni (rhagom)
rhagot ti	rhagoch chi
rhagddo fe / rhagddi hi	rhagddyn nhw (rhagddynt)

rhwng	
UNIGOL	LLUOSOG
rhyngof i	rhyngon ni (rhyngom)
rhyngot ti	rhyngoch chi
rhyngddo fe / rhyngddi hi	rhyngddyn nhw (rhyngddynt)

Ymarfer



Ymarfer

heb + fi	am + ti	dros + ni
at + chi	rhag+ fe	gan + hi
wrth+ ti	ar + ni	i + nhw

Ymarfer



Cywirwch yr arddodiaid yn y brawddegau a'r cwestiynau hyn.

1. Mae angen iddon ni ddeall y sefyllfa.
2. Wyt ti wedi anfon y ddogfen ato y pennaeth?
3. Does dim gobaith gennym heb chi.
4. Oes ganddyn ni amser i orffen y gwaith?
5. Rydw i wedi dweud wrtho nhw sawl gwaith.
6. Anfonodd hi lythyr ato ti ddoe.
7. Mae'n sesiwn Datblygiad Personol pwysig i nhw.
8. Aeth o ar y bws heb hi.

Ymarfer: Atebion

Cywirwch yr arddodiaid yn y brawddegau a'r cwestiynau hyn.

1. Mae angen i ni ddeall y sefyllfa.
2. Wyt ti wedi anfon y ddogfen at y pennaeth?
3. Does dim gobaith gennym hebddoch chi.
4. Oes gennym ni amser i orffen y gwaith?
5. Rydw i wedi dweud wrthyn nhw sawl gwaith.
6. Anfonodd hi lythyr atat ti ddoe.
7. Mae'n sesiwn Datblygiad Personol pwysig iddyn nhw.
8. Aeth o ar y bws hebddi hi.

yn a mewn

YN (wrth ddynodi lleoliad)

Mae **YN** yn sbarduno'r treigladau trwynol mewn enwau llefydd sy'n ei ddilyn. Mae'r 'yn' hefyd yn newid o ganlyniad i hyn:

P	P > Mh	ym Mhencaer
T	T > Nh	yn Nhreboeth
C	C > Ngh	yng Nghaerfyrddin
B	B > M	ym Mangor
D	D > N	yn Nolwyddelan
G	G > Ng	yng Ngwynedd



COFIWCH:

yn = *in*
mewn = *in a*

Â / GYDA / TUA

Mae'r arddodiaid uchod yn sbarduno'r treiglad llaes

p	p > ph	â ph leser
t	t > th	gyda th refn
c	c > ch	tua ch anol dydd

	Treiglad Llaes
p	ph
t	th
c	ch

Llyfr: Pa Arddodiad? **gan D. Geraint Lewis**



Ymadroddion sy'n cynnwys yr Arddodiaid

Am ryw hyd:

Am gyfnod amhenodol o amser

Ar ben:

Wedi gorffen

Ar hyd ac ar led:

All over the place

Ar ei hôl hi:

Yn hwyr

Dod o hyd i:


Darganfod

Dros ben:

1) *Extremely*; 2) *Spare*

Dros dro:

Temporary



Gyda llaw:	<i>By the way</i>
Heb os nac onibai:	<i>Without a doubt</i>
Heb siw na miw:	<i>Yn gwbl ddistaw</i>
Hyd y gwelaf i:	<i>In my view</i>
Hyd y gwn i:	<i>As far as I know</i>
I'r gâd:	<i>Awn i'r frwydr!</i>
O hyd ac o hyd:	<i>Drwy'r amser</i>
Trwy'r amser:	<i>All the time</i>

▼ Arddodiaid

â ... ag

am

ar

i

gyda ... gan

yn ... mewn

Mwy o arddodiaid



<http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2009-10/welsh/tinopolis/swf/main/default.htm>

Copi o'r Mat Iaith Arddodiaid ar Moodle

Fel arfer, mae arddodiad yn cyfeirio at le, digwyddiad neu amser.

Treigladau

Mae treigladau meddal ar ôl
am i wrth
ar o dan / tan
at dros / tros gan
heb drwy / trwy hyd

e.e. heb gartref, i Gaerdydd

Mae treigladau trwm ar ôl
• yn in
e.e. yn Mhen-bre, yng nghanal y drain

Mae treigladau llus ar ôl
• i with the aid of e.e. Tarrais fy llaw â chylllell
• i (or-ôl) bert e.e. siarad â phennaeth yr ysgol
• gyda with, in the company of
e.e. Byddaf yn mynd allan gyda thri ffrind
• tua, e.e. tua chwe chant a bobl.

Does dim treigladau ar ôl
cyn wedi rhwng
er ers
e.e. cyn gadael y siop, rhwng dwy siop

'yn' a 'mewn'

- Rhaid defnyddio 'mewn' o floc enw amhendend in a, e.e. mewn cwpwrdd, mewn munud.
- Rhaid defnyddio 'yn' o floc
• y, yr, priflythyron, e.e. yn Abergwaun
• rhagenw, e.e. yn eu tŷ nhw
• pob, e.e. yn mhob ysgol

'er' ac 'ers'

- Rhaid defnyddio 'er' wrth sôn am amser pendant yn y gorffennol, e.e. Roedd hi'n byw yno er 1999.
- Rhaid defnyddio 'ers' wrth gyfeirio at amser mwy cyffredinol yn y gorffennol, e.e. Roeddwn nhw'n byw yno ers blyneddau.

Arddodiad a berbau

- Weithiau mae berf yn cael ei dilyn gan yr-un arddodiad yn y Gymraeg o'r Saesneg, e.e. talu am to pay for.
- Weithiau mae berf yn cael ei dilyn gan arddodiad gwahanol yn y Gymraeg, e.e. gweiddi ar to shout at.
- Weithiau mae berf yn cael ei dilyn gan arddodiad yn y Gymraeg pan does dim arddodiad yn y Saesneg, e.e. sylwi ar to notice.

Os oes dau ferfennu yn dilyn ei gilydd, does dim angen arddodiad rhyngddynt, e.e. penderfynu Penderfynu i fynd X.

Os oes rhagenw yn dod ar ôl arddodiad, rhaid rhoi'r terfyniad cywir ar yr arddodiad, e.e. Dydych chi ddim yn gallu gorffen brawddeg gyda arddodiad.

'Beth wyt ti'n siarad am?' X
Mae 'Roedd hi'n siarad amdano' yn gywir achos mae gan yr arddodiad 'am' derfyniad - 'amdano'.

Idiomau

AR	I	GAN / GYDA
ofn	rhaid	flin
cywilydd	bryd	gas
bai	hen bryd	ddrwg
dyled	well	

Enghreifftiau
Roedd ofn arna i.
Bydd hi'n well iddyn nhw.
Mae'n gas gyda fe.

Afiechyd

- Os oes rhan o'r corff yn cael ei enwi yn yr afiechyd, rhaid defnyddio gan neu gyda, e.e. Mae cefn tost gen i / gyda fi.
- Os nad oes rhan o'r corff yn cael ei enwi yn yr afiechyd, rhaid defnyddio ar, e.e. Mae peswch arni hi.